# CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 23 Ebrill 2024 am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant; Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Karen Edwards, Pauline Edwards, Bobby Feeley, James Elson, Chris Evans, Jon Harland, Huw Hilditch-Roberts, Alan James, Brian Jones, Delyth Jones, Terry Mendies, Merfyn Parry, Andrea Tomlin a Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS), Llywodraethu a Busnes / Swyddog Monitro (GW), a'r Amgylchedd a'r Economi (TW); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid ac Archwilio (LT), Tai a Chymunedau (LG) ac Addysg (GD); Rheolwr y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd (CB); Prif Reolwr – Cefnogi Ysgolion (JC), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a NPH [Gweddarlledwr])

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganwyd y cysylltiadau canlynol -

Datganodd y Cynghorydd Jason McLellan gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag eitem 5 ar y rhaglen – Prosiect Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru gan fod ei wraig yn gweithio ar y prosiect yng Nghyngor Sir y Fflint.

Datganodd y Cynghorydd Rhys Thomas gysylltiad personol ag eitem 6 ar y rhaglen – Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu – Rhaglen Dreigl gan ei fod yn byw'n agos at Ysgol Uwchradd Dinbych ac yn defnyddio'r llwybr beicio'n ddyddiol a fyddai'n cael ei effeithio'n ddifrifol pe bai Ysgol Plas Brondyffryn yn cael ei lleoli ar y safle a ffafrir.

Datganodd y Cynghorydd Mark Young gysylltiad personol ag eitem 6 ar y rhaglen – Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu – Rhaglen Dreigl gan ei fod yn

Llywodraethwr Ysgol ac yn Gadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Uwchradd Dinbych.

Datganodd y Cynghorydd Pauline Edwards gysylltiad personol ag eitem 6 ar y rhaglen – Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu – Rhaglen Dreigl gan ei bod yn Llywodraethwr Ysgol ac yn Is-gadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Pendref.

Datganodd y Cynghorydd Jason McLellan gysylltiad personol ag eitem 7 ar y rhaglen – Diweddariad i Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025/26 – 2027/28 ac Adolygiad o Gadernid a Chynaliadwyedd Ariannol y Cyngor i'r graddau yr oedd yn ymwneud â chymeradwyo prosiect Ysgol y Llys gan fod yr ysgol yn sownd i'w gartref ef.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2024.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2024 a chadarnhau eu bod yn gywir.*

## 5 PROSIECT ARCHIFAU GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

Wedi iddo ddatgan cysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn y mater hwn, gadawodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Jason McLellan, y cyfarfod am yr eitem hon a chymerodd y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Gill German, rôl y Cadeirydd.

Cyflwynodd y Cynghorydd Emrys Wynne yr adroddiad ar gam nesaf Prosiect Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru yn dilyn ei gymeradwyo mewn egwyddor gan y Cabinet ym mis Hydref 2023.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gasglu, cadw a gwneud dogfennau o bwysigrwydd hanesyddol yn hygyrch. Yr oedd gwasanaeth archifau ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint (CSFf) wedi ei sefydlu'n flaenorol a chynhaliwyd gwaith i greu datrysiad cynaliadwy hirdymor ar gyfer storio archifau. Pwysleisiwyd y problemau sy'n gysylltiedig â storio archifau Sir Ddinbych yng Ngharchar Rhuthun a threuliwyd rhai blynyddoedd yn archwilio'r dewisiadau amrywiol. Daeth y gwaith hwnnw i'r casgliad mai'r dewis gorau a mwyaf cost effeithiol oedd gweithio ar y cyd gyda CSFf ar adeilad di-garbon net pwrpasol newydd ar gampws Theatr Clwyd yn Yr Wyddgrug a chafodd ei gefnogi mewn egwyddor gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2020 a mis Hydref 2023.

Ym mis Hydref 2023, cymeradwyodd y Cabinet gais am gyllid ar y cyd gyda CSFf i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, yn ceisio grant cyfalaf o £7,371,397 i ariannu cyfleuster pwrpasol newydd yn Yr Wyddgrug ar y ddealltwriaeth y byddai CSDd a CSFf yn darparu cyfraniadau arian cyfatebol o £2,052,358 a £3,078,537 yn y drefn honno. Roedd y cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi bod

yn llwyddiannus, ac roedd yr adroddiad yn argymell bod y Cabinet yn cadarnhau ei gefnogaeth i dderbyn y cynnig grant a'i ymrwymiad i gyfrannu at arian cyfatebol cyfalaf, yn amodol ar bod CSFf yn gwneud yr un fath. Os caiff ei gymeradwyo, byddai presenoldeb archif yn parhau yng Ngharchar Rhuthun.

Pwysleisiwyd y rheswm dros y gwariant sylweddol ar y gwasanaeth yn yr hinsawdd ariannol bresennol ac eglurwyd y cyllid. Cafodd amrywiaeth o ddewisiadau eu hystyried ar gyfer storio casgliadau archifau yn y dyfodol ac roedd costau sylweddol i bob un ac mae'n debyg y byddai'r rhain yn costio mwy na'r cynnig presennol yn yr hirdymor. Gan fod y trefniadau presennol yn anghynaladwy a heb fod yn gallu cyflawni dyletswyddau statudol y Cyngor, nid oedd "gwneud dim" yn opsiwn. Byddai swm arian cyfatebol Sir Ddinbych yn cael ei ariannu drwy fenthyca darbodus a byddai'r cynnig yn rhoi cyfle i gaffael cyfleuster archifau newydd, addas i bwrpas ar gyfer y 50 mlynedd nesaf a datrysiad hirdymor. Roedd y Cynghorydd Wynne yn credu mai'r cynnig oedd y dewis mwyaf cost effeithiol ar gael a'r un a oedd yn rhoi'r canlyniadau gorau ar gyfer darparu gwasanaeth.

Roedd y Pennaeth Tai a Chymunedau a Rheolwr y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd yn bresennol. Pwysleisiwyd bod llawer o'r gwaith wedi'i wneud dros gryn amser i archwilio'r holl ddewisiadau ar gael ar gyfer y prosiect hirsefydlog i ganfod y datrysiad gorau wrth symud ymlaen a sicrhau bod deunyddiau archifau'n cael eu storio'n ddiogel a bod gwasanaeth effeithlon yn cael ei ddarparu, gan wneud y mwyaf o fynediad y cyhoedd i'r deunyddiau hynny. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar y cytundeb cydweithio ac ar Benawdau'r Telerau ar gyfer prydlesu'r adeilad a gofynnwyd i'r Cabinet ddirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr a'r Aelod Arweiniol i arwyddo'r dogfennau hynny pan fyddant yn barod o ystyried y terfynau amser sy'n ymwneud â'r broses.

Roedd y Cabinet wedi trafod rhinweddau'r prosiect ar sawl achlysur, gan ystyried y trefniadau anghynaladwy presennol a'r cyfrifoldebau statudol o ran archifau ynghyd â'r costau sylweddol sy'n gysylltiedig â'r prosiect ar adeg o bwysau cyllideb na welwyd mo'i debyg o'r blaen. Bu i'r Cabinet gydnabod gwaith caled pawb a oedd yn rhan o'r prosiect a'r cais grant llwyddiannus gan arwain at sicrhau oddeutu £7miliwn o gyllid allanol ar gyfer adeiladu cyfleuster pwrpasol a oedd wirioneddol ei angen i ddiogelu deunyddiau archifau ar gyfer y dyfodol.

Atebodd y swyddogion i gwestiynau gan aelodau'r Cabinet fel a ganlyn –

- roedd y cynnig gwreiddiol yn 2020 ar gyfer cyfleuster mwy a drytach ac roedd y cais am gyllid grant yn aflwyddiannus. Fodd bynnag, gwahoddwyd y Cyngor i ailedrych ar y prosiect gyda'r bwriad o'i gyflwyno eto am gost is.
- cafodd y diffyg 'Cynllun B' ei godi yn 2020 ac wrth ailedrych ar y prosiect, cymerwyd y cyfle i wirio a oedd unrhyw ddewisiadau eraill mwy cost effeithiol ar gael a gafodd ei amlinellu fel rhan o'r adroddiad.
- os yw'n cael ei gymeradwyo gan y Cabinet, byddai'r broses penderfyniad dirprwyedig arferol yn berthnasol ar gyfer llofnodi'r dogfennau cyfreithiol a fyddai'n cael eu rhannu gyda'r holl aelodau.
- byddai Cabinet CSFf yn cyfarfod y diwrnod canlynol i ystyried y cynnig.
- roedd dau gam ar gyfer rhoi cyllid a oedd yn cynnwys y cam datblygu a'r cam adeiladu a byddai rhan y Cyngor o'r gost yn cael ei rannu dros y cyfnod hwnnw i

ddechrau yn 2024 hyd at 2028; byddai hyd a'r math o fenthyca yn dibynnu ar strwythur y cytundeb cyfreithiol, fodd bynnag roedd yr uchafswm wedi'i gynnwys yn yr adroddiad; byddai symiau bach yn dod i refeniw ar gyfer ad-dalu'r benthyciad yn 2025/26 a 2026/27 gyda chost benthyca amcangyfrifedig o oddeutu £22,000 gyda'r mwyafrif yn 2028/29 o oddeutu £136,000.

Agorwyd y drafodaeth i rai nad oedd yn aelodau o'r Cabinet. Croesawodd y Cynghorwyr Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts a Mark Young y cais am gyllid grant llwyddiannus a'r cynlluniau i ymestyn yr atyniad treftadaeth ar safle Carchar Rhuthun. Codwyd cwestiynau o ran y cyllid sydd ar gael i fwrw ymlaen â datblygiad Carchar Rhuthun, cyfraddau llog a sicrwydd cost o ran benthyca darbodus, ac elfennau o fewn y cytundeb cyfreithiol a threfniadau partneriaeth.

Ymatebodd y swyddogion i gwestiynau a sylwadau fel a ganlyn –

- rhoddwyd sicrwydd bod y Cyngor wedi ymrwymo i helpu'r Gwasanaeth Treftadaeth i ddefnyddio'r gofod gwag yng Ngharchar Rhuthun i ddatblygu profiad gwell i ymwelwyr drwy ddefnyddio cyllid grant allanol at y diben hwnnw; cadarnhawyd hefyd bod y cronfeydd wrth gefn gwerth £60,000 a glustnodwyd yn 2020 yn parhau er mwyn bwrw ymlaen â'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer ymestyn yr atyniad treftadaeth ar y safle
- yn nhermau'r brydles 50 mlynedd arfaethedig, roedd angen cydbwyso'r buddsoddiad a sicrhau bod ased hirdymor yn cael ei ddefnyddio wrth gydnabod y gall pethau newid yn ystod y cyfnod hwnnw, ac roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt o ran hynny; byddai hefyd nifer o gymalau terfynu yn y cytundeb
- gall y gost benthyca dros y cyfnod o 4 blynedd godi a/neu ostwng yn ogystal â chost darparu'r prosiect ond ar y cam adeiladu (mewn oddeutu 18 mis) byddai sicrwydd cost. Nid oedd y cyfraddau benthyca wedi'u gwarantu a oedd yn tua 5% ar hyn o bryd ond efallai y byddai hyblygrwydd o ran ymestyn y benthyca dros gyfnod hirach gan ddibynnu ar delerau'r brydles
- roedd y gwasanaeth archifau ar y cyd wedi bod yn gweithio ar y cyd dros y 4 blynedd diwethaf a oedd yn rhoi hyder yn y trefniadau hynny a byddai'r cytundeb partneriaeth newydd yn cryfhau'r trefniadau hynny ymhellach wrth symud ymlaen. Gobeithir yn y dyfodol y gellir defnyddio mwy o amser staff yn gweithio gyda chymunedau a gwneud mwy o waith partneriaeth gydag archifau lleol llai.

Bu i'r Dirprwy Arweinydd ddiolch i'r rheiny a oedd yn rhan o'r prosiect a thalu teyrnged i waith caled y swyddogion a'r aelodau dros gyfnod hir o amser. Bu i'r Cynghorydd Emrys Wynne hefyd ddiolch i bawb am eu cyfraniadau, yn y gorffennol a'r presennol, er mwyn cyrraedd y cam diweddaraf hwn yn y broses.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) cadarnhau ei gefnogaeth i Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru i dderbyn cynnig grant Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol o £7,371,397, yn amodol ar fod Cabinet Cyngor Sir y Fflint yn gwneud yr un fath;*

*(b) cadarnhau'r ymrwymiad i Gyngor Sir Ddinbych gyfrannu cyllid cyfatebol o £2,052,358 o gyllid cyfalaf a fyddai'n cael ei dalu drwy fenthyca darbodus yn*

*amodol ar fod Cyngor Sir y Fflint yn cadarnhau eu bod yn derbyn y grant a'u cyfraniad cyfalaf hwythau. Disgwyliwyd mai'r uchafswm cost refeniw i Gyngor Sir Ddinbych fyddai tua £136,000;*

(c) *rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr ac Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth, i lofnodi Cytundeb Cydweithio sy'n cynnwys adeiladu'r cyfleuster newydd, gweithrediad Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru a Phenawdau'r Telerau ar gyfer prydlesu'r adeilad newydd, cyn belled nad yw'r gost yn fwy na'r gyllideb gyffredinol o £12,892,294, a*

(d) *chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

**6 CYMUNEDAU DYSGU CYNALIADWY - RHAGLEN DREIGL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Gill German yr adroddiad gan geisio cymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno'r Rhaglen Amlinellol Strategol ddrafft ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i Lywodraeth Cymru (LlC) i'w hystyried.

Roedd LlC wedi newid ei ddull i ddarparu'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt), gan symud oddi wrth fandiau 5 mlynedd o fuddsoddiad i ddull mwy hyblyg dros gyfnod hirach o 9 mlynedd wedi'i rannu'n dri bloc o dair blynedd yr un. Gofynnwyd i awdurdodau lleol ddiweddaru eu Rhaglenni Amlinellol Strategol o dan y strwythur newydd gyda phrosiectau sydd yn eu hanfod yn barod am achosion busnes i gael eu cyflwyno yn y tair blynedd gyntaf, i brosiectau sy'n cael eu datblygu ac yn mynd trwy ymgynghori statudol gael eu cyflwyno yn yr ail gam o dair blynedd ac i brosiectau sydd ar y gweill gael eu cyflwyno ar gyfer y tair blynedd olaf. Byddai'r rhaglen yn cael ei hadolygu bob tair blynedd.

Roedd y cynigion a'r rhesymau dros gyflwyno buddsoddiad ysgolion y Cyngor fesul cam dros y 9 mlynedd nesaf wedi'i amlinellu yn yr adroddiad a gan yr Aelod Arweiniol, yn gryno –

- oherwydd yr oedi, ni fyddai'r 4 prosiect Band B (Ysgol Plas Brondyffryn, Ysgol Pendref, Ysgol Bryn Collen/Ysgol Gwernant, ac Ysgol Uwchradd Dinbych) yn cael eu darparu o fewn yr amserlenni gwreiddiol ac o ystyried y pwysau ariannol presennol roedd angen ail-ystyried beth oedd yn fforddiadwy dros ba gyfnod o amser. Argymhellir ein bod yn cadw at yr ymrwymiad i ddatblygu'r holl 4 prosiect Band B a'u hymgorffori i'r Rhaglen Amlinellol Strategol newydd, ond bod yr amserlenni datblygu yn cael eu hailbroffilio i ledaenu'r pwysau refeniw dros gyfnod hirach.
- cynigiwyd hefyd cynnwys prosiect ychwanegol yn y Rhaglen Amlinellol Strategol i gael ei gyflwyno o fewn y tair blynedd gyntaf yn ymwneud ag adeiladu estyniad bach i Ysgol y Castell a oedd mewn perygl oherwydd costau cynyddol; drwy ei gynnwys yn y rhaglen byddai'n ei ganiatáu i barhau heb unrhyw ofynion benthyca gan y Cyngor gyda'r cyllid cyfatebol sydd ei angen yn cael ei ddarparu gan gyfraniadau gan ddatblygwr Adran 106.
- roedd gofyn i'r Cyngor wneud cyfraniad cyfalaf i'r prosiectau Band B presennol a fyddai'n cael eu hariannu drwy fenthyca darbodus. Os byddai'r holl brosiectau

Band B yn trosglwyddo i’r tair blynedd gyntaf mae’n debygol y byddai angen gwneud toriadau pellach i wasanaethau, yn cynnwys cyllidebau ysgol dirprwyedig, er mwyn ariannu’r costau benthyca, a dyna pam fod y cynnig yn ymwneud â gwasgaru’r benthyciad hwnnw dros amserlen sy’n haws i’w rheoli.

- gan mai Ysgol Plas Brondyffryn oedd y prosiect mwyaf datblygedig, cynigiwyd ceisio buddsoddi yn yr ysgol honno yn y tair blynedd gyntaf gyda’r prosiectau Band B lleiaf datblygedig yn cael eu cynnwys yn yr ail gyfnod o dair blynedd (2027 – 2030), ac yn y cyfnod olaf o dair blynedd (2030 – 2033) byddai angen rhoi ystyriaeth i ddatblygu uchelgeisiau pellach gan ddibynnu ar y sefyllfa ariannol ar adeg yr adolygiad cyntaf yn 2027. Derbyniwyd y byddai’r cynnig yn ergyd i’r ysgolion hynny a fyddai angen aros yn hirach am y gwelliannau sydd eu hangen ond byddai gwaith yn parhau tuag at wireddu’r uchelgeisiau hynny cyn gynted â phosibl yn cynnwys unrhyw waith dros dro a ellir ei ddatblygu yn y cyfamser.

Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, y Pennaeth Addysg a’r Prif Reolwr – Cymorth i Ysgolion hefyd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon. Ychwanegodd y Pennaeth Addysg bod yno benderfyniadau anodd ac amhoblogaidd i’w gwneud ond, o ystyried yr hinsawdd ariannol, roedd yn galonogol bod uchelgeisiau’r Cyngor ar gyfer buddsoddi yn yr ysgolion hynny yn cael eu cadw dros y blynyddoedd nesaf. Disgwyliad LlC ar gyfer y tair blynedd gyntaf oedd bod prosiectau a oedd yn gallu cael eu darparu o fewn y cyfnod hwnnw yn cael eu datblygu a dyna pam fod Ysgol Plas Brondyffryn wedi cael ei gynnig gan fod y prosiect ar hyn o bryd yng Ngham 3 RIBA.

Bu i’r Cabinet ystyried cynnwys yr adroddiad a’r goblygiadau i ysgolion yn y rhaglen o ganlyniad i’r argymhellion. Bu i’r Cynghorydd Julie Matthews dynnu sylw at yr angen brys am y ddarpariaeth arbenigol a ddarperir gan Ysgol Plas Brondyffryn. Mewn ymateb i gwestiynau, cadarnhawyd bod yr ysgol wedi'i gordanysgrifio ar hyn o bryd gyda rhestr aros ac roedd disgyblion hefyd yn aros am asesiadau a diagnosis ffurfiol i allu cael mynediad at y ddarpariaeth. Tynnwyd sylw hefyd at y pwysau ychwanegol ehangach ar ysgolion prif ffrwd a’r potensial ar gyfer lleoli mwy o blant y tu allan i’r sir. Byddai’r prosiect yn caniatáu i’r galw am y ddarpariaeth honno gael ei fodloni drwy gynyddu’r capasiti o 133 o ddisgyblion ar hyn o bryd i gapasiti cyffredinol o 220 o ddisgyblion. Nodwyd bod 16% o’r disgyblion presennol hynny yn byw y tu allan i’r sir.

Tynnodd y Cynghorydd Rhys Thomas sylw at nifer o risgiau a’r ansicrwydd sy’n codi o’r rhaglen dreigl arfaethedig o brosiectau yn cynnwys caniatâd cynllunio ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn, heriau cyfreithiol posibl i’r broses fel yr amlinellir yng Nghod Sefydliad yr Ysgol, diffyg ymrwymiad gan Grŵp Ardal Aelodau Dinbych, ysgolion, busnesau a sefydliadau lleol cyfagos a fyddai’n cael eu heffeithio o ganlyniad i’r cynigion, ansicrwydd o ran chwyddiant a chyllid gan LlC yn y dyfodol a newidiadau gwleidyddol. O ystyried yr amheuon hynny roedd yn teimlo na allai gefnogi’r cynigion a chododd nifer o gwestiynau yn ymwneud â’r materion hynny. Ystyriodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis bod datblygiad y rhaglen yn risg o ystyried y rhagolygon ariannol yn y tymor canolig a oedd yn golygu bod y Cabinet yn gorfod blaenoriaethu prosiectau gan fod ysgolion sydd gyntaf ar y rhestr yn fwy tebygol o gael eu cwblhau. Nid oedd o’r farn mai datblygu’r cynlluniau hynny a oedd yn fwy datblygedig oedd y ffordd gywir o flaenoriaethu’r prosiectau. Gofynnodd y

Cynghorydd Emrys Wynne a fyddai modd cryfhau'r geiriad yn yr Asesiad o'r Effaith ar Les i'w gwneud yn orfodol i'r adeilad ddarparu arwyddion dwyieithog o fewn yr ysgol.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion i'r materion a godwyd fel a ganlyn –

- roedd risg yn gysylltiedig â sicrhau cymeradwyaeth cynllunio ar gyfer y safle a ffefrir ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn ac, os byddai caniatâd cynllunio yn cael ei wrthod, byddai angen i'r Cabinet ailystyried y mater ac ailgyflwyno'r Rhaglen Amlinellol Strategol
- byddai angen i unrhyw Raglenni Amlinellol Strategol sy'n cael eu hailgyflwyno fodloni meini prawf LlC a bodloni gofynion y grant ar gyfer y cam nesaf; roedd cytundeb gyda LlC a dyraniad cyllid i Sir Ddinbych ar gyfer y prosiect
- rhoddwyd y rhaglen ar gyfer prosiectau Band A fel enghraifft lle'r oedd y rhaglen derfynol yn wahanol i'r rhaglen wreiddiol a gymeradwywyd a lle cymerwyd dull partneriaeth gyda LlC a oedd wedi caniatáu i brosiectau gael eu newid yn ystod oes y rhaglen honno i ddarparu prosiectau'n llwyddiannus; byddai'r dull hwnnw hefyd yn cael ei gymryd gyda'r Rhaglen Amlinellol Strategol i adlewyrchu blaenoriaethau sy'n newid
- yn nhermau'r potensial ar gyfer cynnydd mewn chwyddiant, costau cynyddol a'r effaith ar brosiectau mewn blynyddoedd i ddod, ni ellir rhoi unrhyw sicrwydd penodol gan nad oedd y sefyllfa honno'n hysbys, ond rhoddwyd sicrwydd y byddai swyddogion yn gweithio gyda budd-ddeiliaid gyda'r golwg o gyflawni bwriad y Rhaglen Amlinellol Strategol
- nodwyd bod llawer o'r risgiau a'r ansicrwydd a godwyd yn gyffredin i'r holl brosiectau cyfalaf ac roedd angen pwyso a mesur y risgiau hynny a gwneud penderfyniad
- roedd LlC wedi bod yn glir yn eu gofynion y dylid rhoi blaenoriaeth i brosiectau a ellir eu darparu a'u cwblhau yn y tair blynedd gyntaf. Llwyddodd prosiect Ysgol Plas Brondyffryn i fodloni disgwyliadau LlC i'w gwblhau o fewn yr amserlen ac roedd y gyllideb ar waith, ac roedd angen cynyddu'r capasiti ar gyfer darpariaeth arbenigol gyda goblygiadau i ddisgyblion, ysgolion eraill, a chostau os nad oedd modd bodloni'r anghenion hynny. Os byddai unrhyw un o'r prosiectau eraill yn cael eu blaenoriaethu, ni fyddant yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlen sy'n ofynnol gan LlC
- cytunwyd i edrych i newid y geiriad yn yr Asesiad o'r Effaith ar Les i'w gwneud yn glir fod arwyddion dwyieithog mewn ysgolion yn ofynnol.

Agorodd yr Arweinydd y drafodaeth i aelodau nad oeddent yn aelodau o'r Cabinet. Tynnodd y Cynghorydd Delyth Jones sylw at yr angen i ddisgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac i ddisgyblion mewn ysgolion sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd difreintiedig gydag amgylcheddau dysgu anaddas, ac at yr anawsterau o ran blaenoriaethu un garfan dros y llall, a chododd gwestiynau o ran datblygiad y prosiectau a'r amserlenni a ddarperir. Ymhelaethodd y Cynghorwyr Mark Young a Pauline Edwards ar y negeseuon e-bost yr oeddent wedi'u hanfon at y Cabinet yn nodi eu pryderon o ran argymhellion yr adroddiad ac unrhyw oedi i ddatblygiad Ysgol Uwchradd Dinbych ac Ysgol Pendref yn y drefn honno o ystyried yr amodau adeiladu presennol a'r gwaith brys sydd ei angen a'r effaith y byddai'n ei gael, yn enwedig mewn ardal o amddifadedd. Cododd y Cynghorydd Young nifer o gwestiynau o ran yr elfennau cyllido ac ymgysylltu ag aelodau a gofynnodd i

benderfyniad y Cabinet gael ei ohirio wrth ddisgwyl am drafodaeth ac ystyriaeth bellach gan yr aelodau lleol a'r cyngor ehangach. Bu i'r Cynghorwyr Merfyn Parry a Huw Hilditch-Roberts hefyd leisio eu barn a'u pryderon o ran y diffyg ymgysylltiad ac ymrwymiad gan aelodau lleol a'r rhesymeg dros yr argymhellion, gyda'r Cynghorydd Hilditch-Roberts yn awgrymu y dylai'r rhesymeg fod yn seiliedig ar anghenion y disgybl fesul pen.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion i'r cwestiynau a'r sylwadau, ynghyd â chwestiynau ategol pellach a godwyd fel a ganlyn –

- roedd yr holl ysgolion a gyflwynwyd yn y Rhaglen Amlinellol Strategol angen buddsoddiad ac roedd yr uchelgeisiau ar gyfer yr ysgolion hynny'n parhau i fod yn feysydd blaenoriaeth ond roedd canllawiau LlC yn glir bod yn rhaid i'r tair blynedd gyntaf gynnwys y rhai mwyaf datblygedig ac sy'n barod i gael eu cyflwyno. Byddai gwaith yn parhau ar y prosiectau eraill hynny yn ystod y tair blynedd gyntaf i sicrhau y gallent symud ymlaen yn gyflym yn yr ail gyfnod o dair blynedd.
- byddai'n cymryd oddeutu 111 o wythnosau i brosiectau gyrraedd Cam 3 RIBA ac yn barod ar gyfer gwaith adeiladu; y cynharaf y gallai Ysgol Pendref ddechrau gwaith ar y safle fyddai 2026 ac roedd y cynnig i ddechrau yn y Gwanwyn 2027, gallai'r gwaith adeiladu cynharaf ddechrau ar safle Ysgol Uwchradd Dinbych yn Ebrill 2027, ac ar y sail honno, nid oedd oedi hir o ran dechrau'r prosiectau
- roedd lefel yr angen a'r amddifadedd yn yr ardal wedi'i dderbyn a darperir cefnogaeth trwy Ysgolion Bro ac elfennau cyllido eraill
- roedd amryw o resymau pam fod prosiectau'n cael eu datblygu ar gyfraddau gwahanol, yn enwedig o ystyried bod llwybrau gwahanol yn cael eu dilyn a'u datblygu fel rhan o'r broses a oedd y tu hwnt i gapasiti a rheolaeth y Cyngor
- cafodd yr holl brosiectau eu cynnal ochr yn ochr â'i gilydd. Roedd yr oedi i brosiect Ysgol Pendref wedi bod oherwydd problemau yn ymwneud â dewis safle o ganlyniad i'r penderfyniad i ailfodelu'r ysgol bresennol ac roedd prosiect Ysgol Uwchradd Dinbych wedi'i gysylltu â phrosiect Ysgol Plas Brondyffryn. Cyfeiriwyd hefyd at anghenion Ysgol Bryn Collen / Ysgol Gwernant yn Llangollen a oedd hefyd yn rhannu nifer o gyfleusterau
- cynhaliwyd nifer o drafodaethau yng Ngrŵp Ardal Aelodau Dinbych o ran y prosiectau ysgol. Roedd y penderfyniad presennol o ran y Rhaglen Amlinellol Strategol yn benderfyniad y Cabinet ac roedd yr un prosesau wedi'u dilyn yn flaenorol ar gyfer prosiectau Band A – nid oedd y penderfyniad wedi cael ei alw i'r Pwyllgor Craffu nac ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu. Roedd elfennau amrywiol o'r rhaglen dreigl ehangach wedi bod i'r Cabinet bedair gwaith ers mis Ebrill 2022
- os byddai'r holl brosiectau'n cael eu datblygu ar gyflymder, byddai effaith y benthyca darbodus a oedd ei angen yn golygu y byddai angen dod o hyd i arbedion yn rhywle arall a fyddai'n cael effaith anochel ar gyllidebau ysgolion; roedd angen bodloni disgwyliadau LlC hefyd er mwyn sicrhau'r cyllid cyfalaf angenrheidiol ar gyfer y prosiectau
- roedd y gostyngiad yn y grant cynnal a chadw ar gyfer adeiladau ysgol hefyd yn her ac roedd trafodaethau'n parhau i archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio cyllid cynnal a chadw refeniw fel yr elfen arian cyfatebol o'r rhaglen ar gyfer Ysgol Uwchradd Dinbych felly nid oedd unrhyw gostau benthyca i Sir Ddinbych

- roedd y Cyngor yn bodloni ei holl oblygiadau cyfreithiol o ran ystâd yr ysgol gydag arolygon cyflwr a gwaith cynnal a chadw ac ailwampio rheolaidd yn cael ei wneud. Roedd yno broses ar waith a oedd yn cael ei dilyn mor ddiwyd â phosibl
- nid oedd unrhyw brosiect wedi'i oedi hyd yma oherwydd penderfyniadau cyllidebol. Yr argymhelliad presennol oedd ymestyn yr amser a gymerir i gwblhau'r prosiectau Band B oherwydd effaith costau benthyca ar y gyllideb refeniw
- soniwyd eto os byddai penderfyniad yn cael ei wneud i flaenoriaethu prosiect ysgol arall yn y cam cyntaf ni fyddai'n bosibl darparu'r prosiect yn y tair blynedd gyntaf
- rhwng 2018/19 – 2023/24 cafodd oddeutu £1.5miliwn ei wario ar draws yr holl safleoedd gyda mwyafrif helaeth y gwariant ar Ysgol Plas Brondyffryn oherwydd y gwaith ar yr achos busnes a chyrraedd y cam cynllunio, ac roedd y rhan fwyaf o hwnnw wedi'i ariannu gan y Cyngor. Fel arfer, roedd costau dylunio yn cael eu defnyddio ar gyfer arian cyfatebol yn nes ymlaen yn y prosiect fel bod cyllid yn cael ei hawlio'n ôl yn effeithiol yn nes ymlaen
- pe bai'r ystyriaethau blaenorol wedi'u seilio ar nifer y plant a effeithir arnynt yn unig, ni fyddai unrhyw ysgolion gwledig llai wedi'u hadeiladu a byddai nifer o ysgolion gwledig wedi cau. Roedd nifer o ystyriaethau wedi bod ar gyfer y prosiectau Band B gwreiddiol yn cynnwys eu cyflwr, addasrwydd, capasiti a digonolrwydd a'r effaith. Nid oedd y galw am ddarpariaeth arbenigol yn cael ei fodloni gyda disgyblion yn aros am leoedd yn Ysgol Plas Brondyffryn. Wrth dderbyn cyflwr yr ysgolion eraill, roedd gan yr holl ddisgyblion le mewn ysgol gydag addysgu a dysgu da a oedd yn bodloni eu hanghenion.

Derbyniodd yr Arweinydd ei fod yn benderfyniad anodd iawn a oedd yn gorfod cael ei wneud yng nghyd-destun yr heriau ariannol difrifol a oedd yn wynebu'r awdurdod a'r effaith o fenthyca. Roedd gan yr holl brosiectau ysgol achos dilys yn nhermau angen, a bu iddo ddiolch i bawb am eu barn a'u cyfraniadau i'r drafodaeth.

***PENDERFYNWYD***, *trwy bleidlais fwyafrifol, bod y Cabinet yn –*

*(a)* *cymeradwyo bod y Rhaglen Amlinellol Strategol ddrafft ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Atodiad 1 yr adroddiad), yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hystyried, a*

*(b)* *chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

Ar y pwynt hwn (12.15pm) cymerodd y pwyllgor egwyl am luniaeth.

## 7 DIWEDDARIAD I STRATEGAETH A CHYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG AR GYFER 2025/26 – 2027/28 AC ADOLYGIAD O GADERNID A CHYNALIADWYEDD ARIANNOL Y CYNGOR

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n weddill yn ymwneud â chyllideb 2024/25, pennu'r gyllideb yn y tymor canolig (2025/26 – 2027/28) ac adolygiad o gadernid a chynaliadwyedd ariannol y Cyngor.

Arweiniwyd y Cabinet yn fanwl drwy'r adroddiad a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol –

- crynodeb o'r sefyllfa wrth bennu cyllideb 2024/25, yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y setliad ariannu terfynol, Cynllun Ymadael Gwirfoddol a'r traciwr arbedion
- Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 – 2027/28 yn cynnwys rhagamcanion cyllideb presennol ynghyd â'r rhagdybiaethau a oedd yn tanategu'r rhagamcanion a dull strategol y Cyngor i reoli ei gyllidebau gan amlinellu rhai o'r materion ariannol a oedd yn wynebu'r Cyngor dros y tair blynedd nesaf
- hunanasesiad o gadernid a chynaliadwyedd ariannol gan amlinellu asesiad o sefyllfa'r Cyngor yn erbyn themâu cyffredin a materion a nodwyd gan CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth), a
- cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i gychwyn y cyfnod dylunio ar gyfer prosiectau Ysgol Bro Elwern, Ysgol Henllan, Ysgol Bro Cinmeirch ac Ysgol y Llys i alluogi i'r achos busnes llawn gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Cafodd y prosiectau eu hariannu'n llawn a'u cymeradwyo gan y Grŵp Craffu Cyfalaf.

Tynnodd yr Arweinydd sylw at bwysigrwydd yr adroddiad, a gafodd ei drafod yn helaeth yn Briffio'r Cabinet, a'r pwysau allweddol sy'n wynebu'r Cyngor a sut eir i'r afael arnynt ynghyd â'r broses ar gyfer craffu. Croesawodd y Cynghorydd Julie Matthews y Cynllun Cyfathrebu i sicrhau bod yr holl aelodau yn rhan o'r broses ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf wrth symud ymlaen. Cafodd cyfres o weithdai i aelodau o ran y gyllideb a thrawsnewidiad ei gynllunio a fyddai'n rhoi'r cyfle i'r holl aelodau ymgysylltu yn y broses honno i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn cyfnod heriol dros ben. Tynnodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis sylw'r Cabinet at y traciwr arbedion a fyddai'n cael ei ymgorffori i'r adroddiad cyllid misol i'r Cabinet yn y dyfodol i fonitro cynnydd a darpariaeth arbedion.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) cymeradwyo'r diweddariadau fel y rhestrir yn adran 2.1 yr adroddiad, a*

*(b) chymeradwyo cychwyn y cyfnod dylunio ar gyfer prosiectau Ysgol Bro Elwern, Ysgol Henllan, Ysgol Bro Cinmeirch ac Ysgol y Llys i alluogi i'r Achos Busnes Llawn gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo fel y manylir arno yn adran 4.7 ac Atodiadau 6 i 9 yr adroddiad.*

## 8 RHAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynwyd rhaglen waith y Cabinet i'w ystyried a nododd yr aelodau ychwanegiad i'r cyfarfod ym mis Medi yn ymwneud â Chynllun Ynni Ardal Leol Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen waith y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm.